Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ffonau symudol mewn ysgolion

Canllawiau drafft i helpu ysgolion i wneud rheolau clir a theg

## Beth ydych chi'n feddwl?



# Am y ddogfen yma

Dyma fersiwn sy'n Gyfeillgar i Ieuenctid o: **Datblygu polisi ffôn symudol: canllawiau i ysgolion – ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.**

Rydym eisiau gwybod beth ydych chi'n ei feddwl am ein canllawiau drafft ar gyfer defnyddio ffonau symudol mewn ysgolion.



## Sut i rannu eich barn

Darllenwch y canllawiau drafft ac yna atebwch y cwestiynau yn y ddogfen yma. **Anfonwch eich barn i ni erbyn dydd Mercher 2 Rhagfyr 2026.**

Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth bersonol i ni. Fel eich enw, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost.

**Gallwch e-bostio'ch atebion at:**

CMIA.SATE@llyw.cymru

**Neu gallwch argraffu a phostio'ch atebion i:**

Cefnogi Mynediad at Addysg

Cydraddoldeb mewn Addysg

Dysgu, Cymunedau a Diwylliant

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

# Cwestiynau

1. **Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth i helpu'ch ysgol i wneud rheolau am ffonau symudol?**

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

**Os nad ydych yn cytuno, dywedwch wrthym pa wybodaeth arall fyddai'n ddefnyddiol:**

**2. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau drafft yn glir ac yn hawdd i'w deall?**

Ydw ◯

Nac ydw ◯

Ddim yn gwybod ◯

**Os ydych chi wedi dweud na, pa rannau oeddech chi'n eu gweld yn aneglur neu'n anodd eu deall?**

**3. Ydych chi'n meddwl y bydd y canllawiau drafft yn helpu ysgolion i wneud rheolau ffôn symudol teg?**

Ydw ◯

Nac ydw ◯

Ddim yn gwybod ◯

**Os na, beth fyddai'n helpu?**

**4. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau drafft yn cynnwys y prif faterion ynghylch defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol?**

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

**Os na, beth sydd ar goll?**

**5. Ydych chi’n meddwl y bydd y canllawiau drafft yn helpu ysgolion i roi rheolau ffôn symudol ar waith?**

Ydw

Nac ydw

Ddim yn gwybod

**Os na, beth arall fyddai’n helpu ysgolion i roi rheolau ffôn symudol ar waith?**

**6. Efallai y bydd angen i ysgolion feddwl am ddyfeisiau digidol eraill hefyd, er enghraifft, tabledi, watshys clyfar, a sbectol clyfar.**

Ydych chi'n meddwl y dylen ni ysgrifennu canllawiau ychwanegol sy'n cynnwys y dyfeisiau hyn hefyd?

- Ydw ○
- Nac ydw ○
- Ddim yn gwybod ○

**Dywedwch wrthyn ni pam rydych chi'n meddwl hyn.**

**7. Ydych chi'n meddwl bod y canllawiau drafft yn cynnwys yr holl ffyrdd y gellir defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol?**

Er enghraifft, talu am brydau gyda ffôn symudol, edrych ar amserlenni.

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol i'm hysgol
- Ddim yn gwybod

**Os na, dywedwch wrthyn ni beth arall y dylid ei gynnwys.**

8. Ydych chi'n meddwl bod angen unrhyw gamau pellach i wneud yn siŵr bod ffonau symudol yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn yr ysgol?

9. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y canllawiau drafft?

**10. Ydych chi'n meddwl y bydd y canllawiau drafft yn cael unrhyw effeithiau ar y Gymraeg – da neu ddrwg?**

**11. A allwn ni wneud unrhyw newidiadau i'r canllawiau drafft, i wneud yn siŵr nad ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai pwysig na'r Saesneg?**

# Defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn rhannu crynodeb o farn pobl. Ni fyddwn yn cynnwys enw na gwybodaeth bersonol unrhyw un.

Os ydych chi'n rhannu unrhyw wybodaeth bersonol yn eich ymateb, byddwn yn ei dileu.

Byddwn yn dilyn deddfau i wneud yn siŵr ein bod yn storio ac yn defnyddio'ch atebion yn gywir. Byddwn yn eu cadw am hyd at 3 blynedd.

Os hoffech wybod mwy am sut rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data:

**Ebost:** Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

**Cyfeiriad:** Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Diolch am rannu eich barn.**

Mae [Hawdd ei Ddeall Cymru] wedi gwneud y ddogfen yma yn gyfeillgar i ieuenctid. [Cwblhewch ein ffurflen ar-lein i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl].





OGL © Hawlfraint y Goron 2026 WG55129
ISBN 978-1-80853-294-8